

Rhagnodi cymdeithasol ar gyfer iechyd meddwl

Ariannodd Llywodraeth Cymru Mind Cymru i ddatblygu a phrofi gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl. Dyma'r canlyniadau...

Cyd-ddyluniwyd gyda phedwar Mind lleol mewn tair ardal bwrdd iechyd


Mind Lleol	Bwrdd Iechyd Lleol
Cwm Taf Morgannwg	Cwm Taf Morgannwg
Aberhonddu a'r Cylch	Powys
Ystradgynlais	Powys
Dyffryn Clwyd	Betsi Cadwaladr

- 2244 – cyfanswm y bobl a gefnogwyd** (Chwef 2019 – Medi 2021)
- 1838 – nifer o bobl a gefnogwyd yn ystod y pandemig** (Ebrill 2020 – Medi 2021)

Mind Cymru Model Rhagnodi Cymdeithasol

Gweithiwr Cyswllt Rhagnodi Cymdeithasol

- Dull o ganolbwyntio ar y person
- Canolbwyntio ar 'Beth Sy'n Bwysig'
- Adeiladu perthynas sy'n gweithio gyda chleient i nodi amcanion
- Gwybodaeth dda o wasanaethau a gweithgareddau lleol sy'n hyrwyddo llesiant
- Gallu gweld pa gefnogaeth sydd ei angen ar gyfer y problemau iechyd meddwl gwaelodol
- Cefnogi cleientiaid i dalu sylw i anghenion iechyd meddwl a chysylltu
- Cadw cysylltiad gyda'r cleient i wneud yn siŵr fod y gweithgareddau a'r gwasanaethau y rhai iawn



Canfyddiadau allweddol o'n gwerthusiad

Yn ystod y pandemig roedden ni wedi addasu'r gwasanaeth gyda gweithwyr cyswllt yn darparu o bell yn hytrach na wyneb yn wyneb. Derbyniodd rhai defnyddwyr gwasanaeth ffurf fyrrach o gefnogaeth. Mae'r canlyniadau dilynol ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth a dderbyniodd y model llawn o gefnogaeth¹.

Y tri phrif reswm a roddwyd am gysylltu â'r gwasanaeth oedd

1. Iselder
2. Gorbryder
3. Unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol

85% yn dweud bod eu llesiant wedi gwella

98% yn dweud fod y gwasanaeth wedi'u helpu i gyrraedd eu nodau, naill ai'n llawn neu'n rhannol

99% wedi dweud y bydden nhw'n argymhell i deulu neu ffrindiau


49% yn byw yn is na'r lleiafswm safon incwm neu'n dioddef o dlodi

Ar gyfartaledd, roedden nhw'n graddio'r gwasanaeth yn **9.5 allan o 10**

81% wedi cael profiad personol o broblemau iechyd meddwl

Mathau o wasanaethau y cyfeirir atynt

Efallai fod gan bobl gyda phroblemau iechyd meddwl anghenion cymhleth ac angen cael mynediad at fwy nag un gwasanaeth. Dyma'r mathau o wasanaethau mae pobl eu hangen²:



"Mae'n deimlad braf bod yn ôl yn gwneud y pethau roeddwn i'n arfer caru eu gwneud ac mae hyn wedi fy helpu gymaint yn feddyliol."
Sam, Aberhonddu

"Heb y gwasanaeth, efallai na fyddwn i yma. Mae'r effaith wedi bod yn enfawr i mi. Cael rhywun i siarad. Cael pobl yn eich helpu... Mae'n achub bywydau."
Cyfwelai

Argymhellion

Mae'r canfyddiadau'n dangos fod yna ofyn am ragnodi cymdeithasol anfeddygol yng Nghymru, gyda'r arbenigedd i gyfarfod ag anghenion pobl gyda phroblemau iechyd meddwl.

Dylai modelau rhagnodi cymdeithasol yn y dyfodol:

- Gynnig ymyrraeth anfeddygol gyda llwybrau cyfeirio hyblyg
- Cyflogi gweithwyr cyswllt gydag arbenigedd iechyd meddwl
- Sicrhau fod gan weithwyr cyswllt wybodaeth dda o gysylltiadau cymunedol.
- Mabwysiadu model sy'n hyrwyddo gofal sy'n canolbwyntio ar y person, gan ymgysylltu'n effeithiol
- Mabwysiadu model darparu hybrid i siwtio anghenion y cleientiaid

 **Mind Cymru**



1. Bydd yr adroddiad llawn, gan gynnwys y seiliau ar gyfer yr ystadegau a ddarparwyd, yn cael ei gyhoeddi ar dudalen gwe Rhagnodi Cymdeithasol Mind Cymru mind.org.uk/cy/mind-cymru/rhagnodi-cymdeithasol/
2. Noder, mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael eu cyfeirio at lawer o wasanaethau ac felly, mae'r canrannau'n cyfeirio at y nifer o wasanaethau y'u cyfeiriwyd atyn nhw ac nid at nifer y defnyddwyr gwasanaeth.

Mind.org.uk/Cymru Mind.org.uk/Wales

Rydym yn elusen gofrestredig yn Lloegr (rhif 219830) ac yn gwmni cofrestredig (rhif 424348) yng Nghymru a Lloegr